DILYN FI

Bob dydd a phob nos
Fe ddei di ata' i
Bob tro dwyn gofyn
Fe ddeu di ata' i
Ti sydd yn y bore
Ti sydd yn yr hwyr
Hanner diwrnod hebddot
'Dwi wedi drysu'n llwyr

Ti yw fflam y gannwyll
Yfory ac y ddoe
Ti yw'r miwsig lliwgar
Sy'n denu fi i'r sioe
Ti yw'r unig berson
Na elwi'r fi yn ffôl
Dal fi, dyn a thyner
Yng nghynnes crud dy gol

Ti yw'r dywysoges
Yr aur sydd yn y graig
Yn llenwi fy mreuddwydion
Yn f'istres ac yn wraig
Yr emrallt yn y goron
Y chwerthin yn yr haul
Dawnsio yn yr Hydre'
Yn droednoeth yn y dail

Gwel yr oll yn byllau dwfn
Yn dy lygad glas
Edrychiad byr yn toddi'r ofn
Yn dy lygaid glas
Oes mewn eiliad fer
Fflach tu mewn i berl
Gwel yr oll y sydd o'n blaen
Yn dy lygaid glas

Dilyn fi i'r Gogledd Dilyn fi i'r De
Dilyn fi i chwilio am y ffordd i'r seithfed ne'.

© Geraint Griffiths Cyhoeddiadau Sain